# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Talsarnau

**Neuadd Gymunedol**
**Talsarnau**
**LL47 6TA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Talsarnau

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Talsarnau |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Meinir Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Sonia Wyn Jones |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | Dwy a hanner oed i bedair oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 09:00 tan 13:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymhorau'r ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Gorffennaf 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/05/2022 |
| Mae pob plentyn naill ai'n siarad neu'n clywed Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw’r lleoliad yn cydymffurfio â’r Rheoliadau; ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i’w gwella, a dylai’r person cofrestredig roi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod holl bolisïau’r lleoliad yn gwbl gyfredol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, yn frwdfrydig a hyderus. Maent yn gwneud dewisiadau yn ôl eu diddordebau ac, o ganlyniad, maent yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, wrth iddynt gyrraedd, maent yn mynd yn syth i ddewis eu hoff ardal ac ymgysylltu'n ystyrlon â'r gweithgaredd. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau yn ystod sesiwn grŵp, ac maent yn ffyddiog y bydd ymarferwyr yn dangos diddordeb yn yr hyn sydd ganddynt i'w rannu. Mae bron bob plentyn yn mynegi barn am eu dysgu a'u chwarae yn hyderus iawn. Enghraifft nodweddiadol o hyn yw'r cyfleoedd gwerthfawr y mae'r plant yn eu cymryd i rannu eu syniadau a'u dymuniadau ar gyfer cynllunio'r ardaloedd dysgu.

Mae bron bob plentyn yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn teimlo'n hynod o ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent wedi datblygu perthynas agos iawn gyda'r ymarferwyr ac maent yn barod i sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr. Maent yn cyfarch ei gilydd yn gyfeillgar ac yn mynd yn syth i gyd-chwarae'n hapus yn yr ardaloedd. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n ddeallus â'r gweithdrefnau, sy'n creu sicrwydd iddynt wrth ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae bron bob un plentyn yn sylweddoli eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi gan yr ymarferwyr ac, o ganlyniad, mae'r hyder ganddynt i roi cynnig ar bethau newydd. Er enghraifft, maent yn gwenu'n hapus ac yn dangos balchder ar ôl derbyn canmoliaeth gan ymarferwyr am ddefnyddio'r offer llifo a hoelio yn effeithiol. Maent yn gwbl gyfforddus i dynnu sylw ymarferwr i ofyn cwestiwn, rhannu adnoddau neu i ofyn am gymorth. Mae bron bob plentyn yn datblygu perthynas gadarnhaol iawn â'u ffrindiau. Yn ystod amser byrbryd, maent yn aros eu tro i weini eu diod ac maent yn sgwrsio a chwerthin yn hapus. Mae gan bron bob plentyn fedrau annibynnol arbennig o dda. Er enghraifft, maent yn golchi dwylo, tynnu cotiau, trefnu eu bagiau ac yn mynd i'r tŷ bach yn hyderus.

Mae bron bob plentyn yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn llawn cyffro gan ddewis gweithgareddau sydd yn eu sbarduno. Er enghraifft, maent yn creu hufen iâ yn y gegin fwd ac yn chwilota am ddeunyddiau i'w defnyddio fel cynhwysion amrywiol. Mae bron bob un yn frwdfrydig wrth ddysgu medrau newydd ac yn arbrofi ag amrywiaeth o gyfleoedd chwarae diddorol. Maent yn awyddus i ymuno a chyfrannu yn ystod amser cylch ac maent yn falch o'u cyflawniadau. Mae bron bob un wrth eu bodd yn ymweld â'r goedwig ac yn falch o'r llysiau a'r perlysiau maent yn eu tyfu. Maent yn gosod y bwrdd ar gyfer byrbryd gan ddefnyddio llestri go iawn yn ddestlus ac yn defnyddio lamp i oleuo'r tŷ bach twt.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad:

Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Maent yn cadw cofnodion priodol o unrhyw ddamweiniau, meddyginiaeth a gwybodaeth berthnasol. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da o ran sicrhau bod y plant yn cadw’n iach drwy hybu bwydydd iach a thrwy annog y plant i olchi eu dwylo’n rheolaidd. Maent yn gweithredu systemau glanhau ac asesu risg trwyadl, ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol effeithiol i adnabod a lleihau risg. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan bron pob ymarferydd ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o’u cyfrifoldebau.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes â’r plant drwy eu trin â gofal a pharch. Maent yn canmol y plant yn aml, sy’n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygu eu hunanhyder a’u dealltwriaeth o barchu ei gilydd. Mae pob ymarferydd yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant sydd hefyd yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn cefnogi'r plant i reoli eu dewisiadau yn effeithiol. Maent yn sgwrsio â’r plant yn fwriadus ac yn achub ar gyfleoedd i fwydo geirfa Cymraeg newydd.

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a’r plant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a’u hoffterau. Mae cynllunio i ddilyn diddordebau'r plant yn weithredol ac yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymateb i geisiadau rhai o'r plant i adeiladu gwesty i drychfilod a dymuniadau eraill i drafod nodweddion deinosoriaid.

Mae'r ymarferwyr yn holi’r plant yn effeithiol ac, o ganlyniad, yn datblygu medrau’r plant yn effeithiol. Maent yn sensitif i blant sy’n dewis peidio ag ymgymryd â thasgau penodol trwy adael iddynt ddewis eu trywydd eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau i gefnogi unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf i ymdrin ag anghenion unigolion. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys cynllunio taith ddysgu ar gyfer cynnydd plant unigol.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch yn effeithiol. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau fel Diwali ac am wisgoedd traddodiadol o wledydd amrywiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod gan y plant ddealltwriaeth fuddiol o gynaliadwyedd ac ailgylchu trwy ddarparu brofiadau bywyd go iawn iddynt. Maent yn darparu cyfleusterau ailgylchu amrywiol ac mae’r plant yn defnyddio'r rhain yn annibynnol yn ystod gweithgareddau celf ac yn yr ardal adeiladu.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Mae dulliau addysgu ysgogol yr ymarferwyr yn annog y plant i gydweithredu’n effeithiol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a’u medrau gwybyddol. O ganlyniad, maent yn sbarduno’r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn herio’r plant i adeiladu llwybrau antur gyda theiars a physt yn annibynnol ac i ludo brigau a chylchoedd pren ar bapur i ddarlunio lori.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau. Maent yn fedrus wrth gymell y plant i arbrofi wrth chwarae a chymryd risgiau, fel creu cacen fwd a phedlo beic am y tro cyntaf. Maent yn cynnal trafodaethau ystyrlon gyda'r plant ar sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae bron bob un o’r plant yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn herio’r plant i lifo dŵr naill ai'n araf neu'n gyflym i lawr rhes o gafnau ac edafu blociau tri-dimensiwn ar linynau’n ddeheuig.

Mae’r ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n cynnwys parodrwydd a hyder i ddilyn diddordebau’r plant yn gelfydd. Maent yn addasu eu cynllunio’n ddigymell i sicrhau bod y plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol, fel arbrofi â gwrthrychau sydd naill ai’n suddo neu arnofio. Yn ogystal, maent yn defnyddio’u harsylwadau yn ddeallus, a’u cyfatebu i’w hasesiadau yn effeithiol, i gynllunio’r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Mae’r ymarferwyr yn darparu’r wybodaeth fuddiol hyn i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar gyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd y plant ac maent yn holi’r plant yn dda wrth iddynt chwarae. Gwneir hyn wrth i’r plant beintio tractorau a chreu marciau gyda sialc a chreonau. Mae’r ymarferwyr yn dablygu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol ymysg y plant. Maent yn eu herio i ddidoli a rhifo’r gwahanol ddeinosoriaid yn yr ardal byd bach, mesur cyfeintiau blychau gyda thywod a dŵr a datrys problemau ar lechi electronig.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i ddringo a neidio’n frwdfrydig ar gyfarpar anturus a chludo’i gilydd o gwmpas y buarth ar gefn beic. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel creu rhythmau gwahanol gydag offerynnau taro a choginio prydau bwyd dychmygol yn yr ardal chwarae rôl.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, astudio hanes Santes Dwynwen ac ynysoedd aber yr afon Dwyryd. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn fuddiol trwy ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu am y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd a Diwali, a thrafod llyfrau sy'n ymwneud ag amrywiaethau pobl ein byd.

**Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol i blant tu mewn a thu allan i’r adeilad. Mae'r awyrgylch yn gyfeillgar a chartrefol, sy'n hybu ymdeimlad y plant o berthyn. Mae ymarferwyr yn dathlu creadigrwydd y plant drwy arddangos eu gwaith yn gelfydd mewn oriel. Er enghraifft, mae coeden deuluol y plant yn cymryd lle blaenllaw ac mae’r plant wrth eu bodd yn cyfeirio ati. Mae’r ardaloedd chwarae yn sbarduno dychymyg y plant yn arbennig o dda ac yn eu galluogi i gymryd risgiau priodol, fel cludo’i gilydd ar gefn beiciau. Mae’r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd ardderchog i blant ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, mae’r plant yn datblygu eu medrau mathemategol yn llwyddiannus drwy gymharu meintiau darnau o bren ar ôl iddynt eu llifio yn yr ardal adeiladu.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus mewn amgylchedd diogel. Cedwir cofnod manwl o ymwelwyr ac mae gan y lleoliad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau hyn. Maent yn rhoi blaenoriaeth i asesu risg sy'n perthyn i'r ardaloedd tu mewn a thu allan ac i weithgareddau penodol. Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r amgylchedd a'r offer yn lân ac mewn cyflwr priodol. Mae cyfleoedd da ar gael i blant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. O ganlyniad, mae llawer o blant yn hollol gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol. Mae'r ardal allanol wedi'i chynllunio'n bwrpasol i alluogi plant i ddatblygu'n gorfforol, yn greadigol ac yn ymchwiliol. Er enghraifft, mae'r plant yn tyfu mefus a thatws ac yn 'coginio' yn y gegin fwd. Mae'r ymarferwyr yn caniatáu i'r plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd tu mewn a thu allan, sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau syml am yr hyn maent yn dymuno'i wneud. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn ogystal, anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy gael mynediad effeithiol at deganau a llyfrau aml-ddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae strategaethau arwain pwrpasol yr arweinwyr yn canolbwyntio'n effeithiol ar gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella deilliannau'r plant. Mae ganddynt weledigaeth glir ac maent yn cydweithio'n ddiwyd i hybu gofal a dysgu'r plant. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a'u rhagwelediad ystyrlon yn creu amgylchedd difyr, sy'n cynnig profiadau diddorol i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau gofal bugeiliol twymgalon i'r plant, sy'n creu ymdeimlad o berthyn ymysg y plant a'r oedolion. Mae'r awyrgylch gadarnhaol hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Yn ogystal, maent yn cynnal trafodaethau cyson gyda'r rhieni a'r gofalwyr am ddatblygiad eu plant, ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn synhwyrol i ddarparu gwybodaeth berthnasol iddynt.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gefnogol iawn i'w gilydd. Maent yn gosod disgwyliadau synhwyrol i'w harferion dyddiol, trwy gydweithredu'n ddyfal i gynnal safonau uchel. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysgu a'u harferion gofal. O ganlyniad, maent yn gydwybodol ac yn awyddus i lwyddo. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol a holl bolisïau'r lleoliad yn cael eu hadnewyddu a'u cywiro yn rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso trwyadl, sy'n arwain at dargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella yn effeithlon. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar fireinio'r prosesau i ddilyn diddordebau'r plant yn well.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol gyda’r holl randdeiliaid i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant, fel awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. O ganlyniad, maent newydd ddechrau plethu’r cynllunio a’r asesu yn effeithiol i dargedu’n llwyddiannus y camau nesaf yn nysgu’r plant.

Mae'r arweinwyr a’r ymarferwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy’n cynnig profiadau ysgogol i’r plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio’r pentref a’r ardal leol yn greadigol i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant yn y goedwig ac ar y traeth. Yn ogystal, mae’r berthynas gynhyrchiol â’r ysgol yn paratoi’r plant i’r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

Mae’r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel. Er hyn, nid yw’r arweinwyr bob amser yn sichrau bod gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae’r person cofrestredig wedi ymateb i hyn yn syth yn ystod yr arolygiad. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n fwriadus. Maent yn defnyddio’r gyllideb yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddeallus, fel ategu morthwylion, llifiau a hoelion i’r ardal adeiladu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/07/2022